UCAC
Undeb
Cenedlaethol
Athrawon
Cymru

Polisi drafft i lywio datblygiad Rheoliadau o dan Fesur Dysgu a Sgiliau (Cymru)

Gorffennaf 2009

UCAC | yr undeb sy'n diogelu athrawon a darlithwyr Cymru

www.athrawon.com

Ymateb UCAC i'r Ymgynghoriad: Polisi drafft a fydd yn llywio datblygiad Rheoliadau o dan Fesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009

Cwricwlwm Lleol ar gyfer disgyblion yng Nghyfnod Allweddol 4

Adran 7: Dewisiadau disgyblion o ran cyrsiau cwricwlwm lleol

1. **Uchafswm cyrsiau:** Er bod gwneud 10 TGAU yn rhesymol iawn ar gyfer y rhan fwyaf o ddysgwyr, credwn fod gosod 10 TGAU fel uchafswm yn gosod y nenfwd ychydig yn rhy isel. Ni fydd yn anghyffredin i weld dysgwyr sydd am wneud, ac sy'n abl i wneud, mwy na 10 TGAU neu gymwysterau cyfwerth; gydag uchafswm o ddeg, bydd angen i'r dysgwyr hynny wneud cais arbennig, a bydd angen proses gweinyddol arbennig - proses sy'n gofyn amser ac ystyriaeth unigol.

2. **Amseru dewisiadau cychwynnol:** Mae terfyn o 'ddiwrnod olaf tymor y gwanwyn' yn hwyr o safbwynt y sefydliadau addysg, er mwyn iddynt allu trefnu darpariaeth - delio gydag apeliadau, gwneud penderfyniadau ynglŷn ag ymarferoldeb rhedeg cyrsiau, cyflogi staff, creu amserlen ac ati.

   Gofynnwn a oes rhaid pennu terfyn o'r fath mewn rheoliadau? Efallai mai gwell fyddai i sefydliadau addysg benderfynu ar y terfyn fwyaf addas iddyn nhw – a hynny, yn debygol iawn, o fewn consortiwm neu drefniadau cydweithredol lleol.

Adran 9: Penderfyniad y Pennaeth mewn perthynas â hawl

3. **Amserlen ystyried dewisiadau dysgwyr:** Mae 28 diwrnod ar ôl dechrau tymor yr haf yn ymddangos yn hwyr iawn – nid yw'n gadael llawer o amser ar gyfer gweddill y broses.

4. **Gweithdrefn gwneud penderfyniadau:** Nid oes llawer o fanylder yma, ond mae'n rhesymol i ddisgwyl bod y Pennaeth yn hysbysu'r dysgwr yn ysgrifenedig o'r penderfyniad, a'r rhesymau dros y penderfyniad hwnnw.

5. **Proses apeliadau:** Mae'r broses apeliadau, fel y'i hamlinellir yn y polisi drafft yn codi pryderon. Mae'n ymddangos yn fiwrocrataidd dros ben, ac mi fydd nifer o sgil effeithiau niweidiol:

   - bydd yn codi gobeithion y dysgwyr yn afresymol ynglŷn â phosibilrwydd gwrthdroi penderfyniadau; mae'r sail ar gyfer gwneud penderfyniadau o'r fath wedi'i hamlinellu'n glir yn y Mesur, felly nid yw'n debygol y bydd nifer fawr o apeliadau llwyddiannus

   - bydd yn ymestyn yr holl broses yn ormodol, ac yn rhwystro gallu terfynu'r ddarpariaeth a'r amserlen tan yn hwyr iawn yn y flwyddyn

   - bydd yn rhoi llwyth gwaith sylweddol ar ysgwyddau'r Pennaeth

   Mynegwn ein pryder hefyd mai ar ysgwyddau'r Pennaeth y mae'r cyfrifoldeb am ymdrin ag apeliadau. Pryderwn am hyn o safbwynt:

   - tegwch a didueddrwydd; y Pennaeth gwnaeth y penderfyniad gwreiddiol, felly rhywun oni bai am y Pennaeth dylai fod yn adolygu'r penderfyniad hwnnw; mae'r Mesur Dysgu a Sgiliau'n cyfeirio at rôl i'r Corff Llywodraethol yn y cyd-destun hwn

   - llwyth gwaith y Pennaeth; nid yw'n rhesymol i ddisgwyl i benaethiaid ymgymryd â gwaith biwrocrataidd ychwanegol o'r math hwn

   Awgrymwn nad yw proses apeliadau ffurfiol, beichus o'r fath hwn yn addas nac yn adeiladol; credwn na fyddai manteision y broses yn gyfwerth â'r amser sydd ynghlwm wrth ei gweinyddu.

Adran 11: Penderfyniad y Pennaeth i ddiddymu hawl

6. **Gweithdrefn gwneud penderfyniad ynghylch apêl:** Gweler y sylwadau uchod (cwestiwn 5).

Cwricwlwm Lleol ar gyfer myfyrwyr 16-18 oed

Adran 26: Dewisiadau'r disgyblion o ran cyrsiau cwricwlwm lleol

7. **Uchafswm cyrsiau:** Mae'r uchafswm o 5 TAG Safon UG yn ymddangos braidd yn uchel; pryderwn mai sgil effaith hyn fydd bod dysgwyr a rhieni o dan yr argraff bod 5 yn normal, a'u bod yn mynnu'r hawl i sefyll y 5.

8. **Amseru dewisiadau cychwynnol:** Gweler y sylwadau uchod (cwestiwn 2).

   O ran y tabl system sgorio Blwyddyn 1 a 2, croesawn y gydnabyddiaeth i gyrsiau Lefel 1 ym Mlwyddyn 1. Awgrymwn fod angen cynnwys cyrsiau Lefel 2 ym Mlwyddyn 2, er mwyn rhoi parhad a dilyniant i'r dysgwyr hynny sydd wedi cwblhau cyrsiau Lefel 1 ym Mlwyddyn 1.

Adran 28: Penderfyniad y Pennaeth neu'r Prifathro mewn perthynas â hawl

9. **Ystyriaeth lawn i gyraeddiadau diwedd Cyfnod Allweddol 4:** Mae hyn yn briodol.

10. **Apeliadau penderfyniadau cychwynnol a therfynol:** Mae gennym yr un pryderon yma â'r pryderon a fynegwyd eisoes yng nghwestiwn 5. Mae'r posibilrwydd o apelio ddwywaith ond yn ategu ein pryderon o ran biwrocratiaeth a llwyth gwaith. Yng ngoleuni'r ffaith bod y sail ar gyfer y penderfyniadau hyn yn glir yn y Mesur, neu fod unrhyw amodau o ran cyrhaeddiad Cyfnod Allweddol 4 yn gwbl glir ar ddechrau'r broses, mae UCAC o'r farn nad oes angen proses trwm a thrwsgl fel hon.

11. **Goblygiadau ymarferol y darpariaethau hyn:** Yn ychwanegol at yr oblygiadau ymarferol a nodwyd uchod (cwestiynau 5 a 10), nodwn fod 'diwrnod cyntaf y flwyddyn academaidd' yn hwyr iawn i roi gwybod i ddysgwr ynglŷn â'i hawl i ddilyn cwrs. Mae perygl o greu gwrthdaro a drwgdeimlad gwirioneddol drwy roi'r wybodaeth mor hwyr, ar yr union adeg pan fydd y dysgwr yn disgwyl dechrau ar y cwrs.

Adran 30: Penderfyniad y Pennaeth / Prifathro i ddiddymu hawl

12. **Gweithdrefn gwneud penderfyniadau:** Gweler sylwadau uchod (cwestiynau 4, 5, 10).

Adran 25: Penderfynu ar 'ysgol neu sefydliad perthnasol' y disgybl

13. **Amserlen gwneud ceisiadau a phenderfyniadau:** Nid amserlen y broses yw'r prif bryder fan hyn; nid yw'r hyn sydd wedi'i ddisgrifio yn y polisi drafft yn ddigon clir - i'r gwrthwyneb, mae'n ddryslyd.

    Dyma rai materion sy'n codi pryder:

    - Os mai 'sefydliad perthnasol' yw'r sefydliad sy'n "gyfrifol am ddarparu" / "gyfrifol am wneud trefniant ar gyfer darparu" mwyafrif o addysg y dysgwr, a oes wirioneddol angen proses ceisiadau / penderfyniadau biwrocrataidd o'r math hwn?

    - Gan fod y mwyafrif helaeth o ddysgwyr Cyfnod Allweddol 4 yn ddisgyblion mewn ysgol, mae'r prosesau hyn fel petai'n gosod llwyth gwaith biwrocrataidd mawr ychwanegol ar yr ysgolion hynny yn y tymor byr; nid oes cyfrifoldeb cyfatebol ar golegau addysg bellach; rhaid ystyried a yw'r broses yn un wirioneddol angenrheidiol.

- A oes amgylchiadau pan gall sefydliad fod yn ‘sefydliad perthnasol’ hyd yn oed os nad yw’n “gyfrifol am ddarparu” / “gyfrifol am wneud trefniant ar gyfer darparu” mwyafrif o addysg y dysgwr? Os felly, pa fath o amgylchiadau fyddai’r rheiny?

- Nid yw’n gyfan gwbl glir pa gyfrifoldebau sy’n cyd-fynd â bod yn ‘sefydliad perthnasol’ i gymharu â sefydliad arall ble mae’r dysgwyr yn derbyn rhywfaint o’i ddarpariaeth – materion presenoldeb/absenoldeb; materion disgyblaeth?

- Mae’n anodd deall sut/pam na fyddai canlyniadau Cyfnod Allweddol 4 yn dylanwadu ar y penderfyniad ynglŷn â ‘sefydliad perthnasol’; mae’n bosib iawn y bydd y cyfuniad o gyrsiau mae’r dysgwr yn dilyn (a’r math a nifer o gyrsiau sydd ar gael) yn newid yn sylweddol yn sgil canlyniadau Cyfnod Allweddol 4.

Mae UCAC o’r farn bod angen ail-edrych ar y polisi yn y maes hwn.

UCAC
Undeb
Cenedlaethol
Athrawon
Cymru

Prif Swyddfa **UCAC**, Ffordd Penglais, Aberystwyth, Ceredigion SY23 2EU

ffôn: 01970 639950 | ffacs: 01970 626765 | ucac@athrawon.com

www.athrawon.com